



YMCHWIL & DATBLYGIAD
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Aneurin Bevan University Health Board
RESEARCH & DEVELOPMENT



Ymchwil Iechyd
a Gofal **Cymru**
Health and Care
Research **Wales**




GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Strategaeth Ymchwil a Datblygu **Ymchwil –** **Gweithgarwch Craidd** 2022–2027





YMCHWIL & DATBLYGIAD

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Aneurin Bevan University Health Board

RESEARCH & DEVELOPMENT

Ffôn: 01633 238480

E-bost: ABB.R&D@wales.nhs.uk



Dilynwch ni ar Twitter [@ABUHB_Research](https://twitter.com/ABUHB_Research)



Cyflenwi a datblygu ymchwil sy'n greiddiol i wasanaethau clinigol ac sy'n bodloni anghenion ein poblogaeth

D.S. Dylid annog staff i beidio ag argraffu'r ddogfen hon. Diben hyn yw osgoi'r risg o argraffu fersiynau o'r ddogfen nad ydynt yn gyfredol. Dylid cyfeirio at y Fewnwrwyd i gael y fersiwn ddiweddaraf o'r ddogfen.



1853

Asbrin yn cael ei ddyfeisio

Mae Asbrin, a adnabyddir hefyd fel asid asetylsalisylig (ASA), yn feddyginiaeth a ddefnyddir i leihau poen, twymyn, neu lid.

Mae rhagflaenydd i asbrin a ganfyddir mewn dall o goed helyg wedi cael ei ddefnyddio oherwydd ei effeithiau iechyd ers o leiaf 2,400 o flynyddoedd. Yn 1853, triniwyd y feddyginiaeth sodiwm salisylad gyda chlorid asetyl i greu asid asetylsalisylig am y tro cyntaf gan y cemegydd Charles Frederic Gerhardt. Am y 50 mlynedd nesaf, sefydlodd cemegwyr eraill y strwythur cemegol a chreu dulliau cynhyrchu mwy effeithlon.

Mewn treialon clinigol ac astudiaethau eraill rhwng yr 1960au i'r 1980au, sefydlwyd effeithiolrwydd asbrin fel cyfrwng gwrth-dolchennu sy'n lleihau'r risg o glefydau tolchennu.

Roedd yr astudiaethau mawr cyntaf ar ddefnyddio asbrin dos isel i atal trawiadau ar y galon, a gyhoeddwyd yn yr 1970au a'r 1980au, wedi helpu i sbarduno diwygio mewn moeseg ymchwil clinigol a chanllawiau ar gyfer ymchwil testun dynol a chyfraith ffederal yr UDA. Maent yn cael eu nodi'n aml fel enghreifftiau o dreialon clinigol a oedd yn cynnwys dynion yn unig, ond lle'r oedd pobl yn dod i gasgliadau cyffredinol nad oedd yn wir am ferched.

Asbrin yw un o'r meddyginiaethau a ddefnyddir fwyaf yn fyd-eang, gydag oddeutu 50 i 120 biliwn o dabledi'n cael eu defnyddio bob blwyddyn, ac mae'n cael ei gynnwys ar Restr Meddyginiaethau Hanfodol Sefydliad Iechyd y Byd.



Cynnwys:

1 Cyflwyniad	2
2 Cefndir	2
AMCAN STRATEGOL 1:	
Gweithlu ymchwil cynaliadwy a gefnogir	4
Cyfleoedd Incwm Allanol	6
Cyfleoedd Gweithlu BIPAB	6
Ymgorffori ymchwil i Ddarpariaeth Weithredol y GIG	7
Addysg	7
AMCAN STRATEGOL 2:	
Buddsoddiad mewn staff ac isadeiledd	10
Tîm Ymchwil Arbenigol	10
Amser Ymgynghorydd sy'n Ymchwilio'n Weithredol	11
Gwasanaethau Cymorth y GIG	11
Datblygu penodiadau ar y cyd rhwng y GIG a'r Sefydliadau Addysg Uwch (SAU).....	12
Isadeiledd	13
Cymuned Ymarfer	13
AMCAN STRATEGOL 3:	
Rhaglen ymchwil arloesol, effeithlon, wedi'i symleiddio	14
Cam 1: Meysydd cryfder a chyfleoedd	15
Cam 2: Blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd	16
Cam 3: Cyflenwi Ymchwil – gwasanaeth gweithredol cwbl integredig	18
3 Casgliad a Chrynodeb	18



Rhagair

***Ymchwil, Gweithgarwch
Craidd 2023- 2028***

**Strategaeth Ymchwil a
Datblygu Bwrdd Iechyd
Prifysgol Aneurin Bevan**

*“Nid fi ddyfeisiodd
benisilin. Natur
wnaeth hynny. Dim
ond ei ddarganfod yn
ddamweiniol wnes i.”*

Alexander Fleming, meddyg
a gwyddonydd o'r Alban
sy'n cael ei gydnabod am
ddarganfod penisilin



Ni fu erioed gyfnod mwy cyffrous ym myd ymchwil. Gyda datblygiadau mewn technoleg, arloesedd a chreadigrwydd yn gallu gwella afiechydon; yn cynorthwyo pobl i wella ac i fyw'n hirach, mae ymchwil yn bwysicach nag erioed.

Wrth i ni edrych tua'r dyfodol, mae ein strategaeth yn ceisio rhoi ymchwil ac arloesedd wrth wraidd y Bwrdd Iechyd drwy ddefnyddio ein cyfleuster ymchwil newydd o'r radd flaenaf, wrth i ni ymdrechu i arloesi a chyfoethogi pobl yng Ngwent, ar hyd a lled Cymru ac fel y gwnaethom yn ystod y pandemig, y byd.

Mae ein hymdrechion a blaenoriaethau'n parhau i ganolbwyntio ar amrywio ein cynnig ymchwil fel bod y bwrdd iechyd yn gallu gwireddu ei lawn botensial fel sefydliad ymchwil blaenllaw. Mae'r strategaeth ymchwil hon, yr un fwyaf uchelgeisiol a deinamig gennym hyd yma, yn arwydd o ddechrau pennod gyffrous newydd wrth i ni weithio'n galed i ymgorffori ymchwil i wasanaethau gweithredol y GIG drwy ganolbwyntio ar dri amcan strategol lefel uchel ac wyth gweithred strategol.

Amcan strategol 1: datblygu gweithlu ymchwil cynaliadwy. Bydd cefnogi, meithrin ac adeiladu ar ymchwil mewn meysydd cryfder yn rhoi'r adnoddau a'r cyfle i staff gymryd rhan yn narpariaeth ymchwil ar lefel leol.

Amcan strategol 2: bydd buddsoddi mewn staff a seilwaith yn sicrhau bod cymorth ar gael er mwyn i'r bobl gywir gyflwyno'r ymchwil cywir, ar yr adeg gywir, yn y lle cywir.

Amcan strategol 3: gyda'r nod o ddatblygu rhaglen ymchwil arloesol, effeithlon wedi'i symleiddio, wedi'i hintegreiddio'n llawn ar lefel weithredol. Bydd y rhaglen ymchwil yn cefnogi cyflwyniad ein cynllun tair-blynedd drwy gynnal ymchwil sy'n bwriadu mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a bodloni anghenion ein poblogaeth leol.

Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â'r "Fframwaith strategol cefnogi a chyflenwi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru", "CReSt: strategaeth ymchwil canser Cymru" a "gweledigaeth 10-mllynedd y DU ar gyfer ymchwil: Achub a Gwella Bywydau: Dyfodol cyflenwi ymchwil clinigol yn y DU".

Sut wnaethom gyrraedd yma?

Yn 2022, yn dilyn y pandemig byd-eang, buddsoddodd y Bwrdd Iechyd mewn cyfleuster ymchwil clinigol newydd o'r radd flaenaf ar safle Ysbyty Brenhinol Gwent, ac agorwyd ei ddrysau. Bydd cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn gweld twf yn y seilwaith ymchwil ar safle Ysbyty Nevill Hall ac Ysbyty Athrofaol y Faenor.



Dros y bum mlynedd nesaf byddwn yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd ac adnoddau sydd ar gael ar ein cyfer, o fewn y sefydliad ac yn allanol. Bydd ein cydweithrediadau yn sicrhau ein bod yn adeiladu seilweithiau cadarn sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu talent leol o ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa i statws Uwch Ymchwilydd. Byddwn yn parhau i chwarae rhan lawn mewn cynnig cyfleoedd ymchwil ar lefel genedlaethol yn ogystal â'r rhai a ddatblygir ar lefel leol sy'n cyd-fynd â'n blaenoriaethau sefydliadol.

Bydd ein cyfleuster ymchwil newydd a'n tîm ymroddgar o nyrsys ymchwil arbenigol yn ganolog i'n galluogi ni i wneud y mwyaf o gyfleoedd a thwf incwm wrth i ni ymgysylltu mewn mwy o ymchwil a noddir gan ddiwydiant ac anelu i ddod yn bartner a ffafrir ar gyfer treialon masnachol.



Nicola Prygodzicz
Prif Swyddog Gweithredol



James Calvert
Cyfarwyddwr Meddygol

Comirnaty (BNT162b2)
Spikevax (mRNA-1273)
COVID-19 Vaccine AstraZeneca (AZD1222)
Sputnik V
Sputnik Light
COVID-19 Vaccine Janssen (JNJ-78436735; Ad26.COV2.S)
CoronaVac
BBIBP-CorV/NVSI-06-07
EpiVacCorona
Convidicea (PakVac, Ad5-nCoV)
Covaxin (BBV152)
WIBP-CorV
CoviVac
ZF2001 (ZIFIVAX)
QazVac (QazCovid-in)
COVIran Barekat
Abdala (CIGB 66)
Soberana 02/Soberana Plus
MVC-COV1901
ZyCoV-D
Spikogen (COVAX-19)
FAKHRAVAC (MIVAC)
Nuvaxovid
Turkovac (ERUCOV-VAC)
Corbevax
Covifenz (CoVLP)

2020**Brechlynnau COVID-19**

Mae Covid-19, a nodwyd am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr 2019, yn afiechyd heintus a achosir gan syndrom anadlu aciwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2). Ymledodd yr afiechyd drwy'r byd, gan arwain at bandemig.

Roedd strwythur a swyddogaeth coronafeirysau yn gyfarwydd cyn y pandemig COVID-19, ac erbyn mis Ionawr 2020, roedd trefn enetig y firws SARS-CoV-2 wedi'i darganfod a'i rhannu'n fyd-eang. Arweiniodd ymdrech fyd-eang at ddatblygiad sawl brechlyn a roddwyd yn gyntaf i wirfoddolwyr dynol.

Yn 2020, cymerodd Canolfan Ymchwil Clinigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ran yn nhreialon brechlyn Oxford Astra Zeneca. Llwyddodd y tim, gyda chefnogaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chanolfan Treialon Ymchwil, i recriwtio dros 500 o bobl i gymryd rhan, a chyfrannodd hyn at well dealltwriaeth o effeithiolrwydd a diogelwch y brechlynnau.

Erbyn mis Mawrth 2022, roedd dros 10 biliwn dos o frechlynnau COVID-19 wedi cael eu rhoi i bobl ledled y byd.



1 Cyflwyniad

Mae llawer wedi newid yn ystod y bum mlynedd ers i strategaeth Ymchwil a Datblygu (YaD) olaf Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB) gael ei chymeradwyo gan y Bwrdd. Rhoddodd y pandemig COVID ffocws i galonnau a meddyliau a chododd broffil ymchwil nid yn unig yn BIPAB ond yn fyd-eang. Roedd dod o hyd i driniaethau, brechlynnau a chysylltiadau genetig yn hollbwysig a gwnaeth BIPAB gyfraniad sylweddol ac effeithiol i'r ymdrech honno.

Yr hyn a ddysgwyd yn sgil y pandemig oedd bod BIPAB wedi cyflawni lefelau recriwtio uchel i astudiaethau hynod ddylanwadol pan oedd ymchwil yn rhan o ofal clinigol arferol ac nid yn cael ei weld fel gweithgaredd ategol oedd angen amser a chapasiti ar gyfer ymchwil. Wrth i ni adfer ar ôl y pandemig, mae'r amser wedi dod i ddatblygu a gweithredu strategaeth sy'n ymgorffori ymchwil i ddarpariaeth gwasanaeth craidd BIPAB y GIG yn llawn.


Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd pedair gwlad y DU weledigaeth 10-mlynedd newydd ar gyfer ymchwil - *Achub a Gwellu Bywydau: Dyfodol Cyflenwi Ymchwil Clinigol yn y DU* - sy'n nodi'r uchelgais i greu amgylchedd ymchwil clinigol blaenllaw yn y DU. Mae'r Strategaeth 'Ymchwil – gweithgarwch craidd' BIPAB hon yn cyd-fynd â gweledigaeth y DU a Fframwaith Strategol Cefnogi a Chyflenwi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (HCRW).

Y disgwyliad gan Lywodraeth Cymru yw y dylai ymchwil fod yn un o swyddogaethau craidd Bwrdd Iechyd Prifysgol. O ganlyniad, mae angen i ymchwil fod yn rhan annatod o ddarparu Strategaeth Dyfodol Clinigol BIPAB a chyflawni cenhadaeth y Bwrdd Iechyd i leihau anghydraddoldebau iechyd ar draws Gwent.

2 Cefndir

Mae adroddiadau gan gyrff megis Academi'r Gwyddorau Meddygol¹ a Choleg Brenhinol y Meddygon² wedi pwysleisio gwerth ymchwil i'r GIG. Dangoswyd bod sefydliadau'r GIG sy'n ymchwilio'n fwy gweithredol yn elwa o'r 'effaith ymchwil'. Mae'r buddion hynny'n cynnwys gwell profiad gofal a chanlyniadau i gleifion a chynnydd mewn recriwtio a chadw staff.

Mae BIPAB wastad wedi cydnabod gwerth ymchwil, gan weithio â phartneriaid prifysgolion lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i ddylunio prosiectau ymchwil, ennill cyllid grantiau, ac adeiladu capasiti a gallu'r gweithlu ymchwil er mwyn bodloni anghenion ein poblogaeth. Mae partneriaeth gref rhwng y Bwrdd Iechyd ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (HCRW), partneriaid prifysgolion, unedau treialon, partneriaethau diwydiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) a'r sector gwirfoddol.




Dylid darllen y rheoliadau hyn ar y cyd â Chynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) BIPAB. Gyda'i gilydd mae'r dogfennau hyn yn dangos cyfranogiad YaD yn y rhwydweithiau ehangach sy'n galluogi datblygiad a chyflawniad ymchwil ac arloesedd, a rhoi canlyniadau ar waith drwy wella'r gwasanaeth.

¹ <https://acmedsci.ac.uk/policy/policy-projects/nhs-academia-interface>

² <https://www.rcplondon.ac.uk/projects/outputs/research-all-developing-delivering-and-driving-better-research>

Mae'r incwm a roddir i BIPAB gan HCRW yn darparu'r cyllid craidd ar gyfer gweithgarwch ymchwil y Bwrdd Iechyd. Mae cyllideb HCRW dan bwysau sylweddol ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae HCRW wedi symud ei feini prawf cyllido i un dangosydd perfformiad allweddol, sef i recriwtio cyfranogwyr i astudiaethau o fewn amser a tharged cytunedig (RTT). Mae cyflawni hyn yn dangos bod Cymru yn gallu cyflawni'i haddunedau a rhoi'r sicrwydd sydd ei angen ar noddwyr a chwmnïau masnachol i ddod â'u hastudiaethau i Gymru.

Y disgwyliad gan HCRW a Llywodraeth Cymru yw y dylai datblygu capasiti a gallu ymchwil fod yn un o swyddogaethau craidd Bwrdd Iechyd Prifysgol a dylai gael ei gyllido yn unol â hynny. Mae'r symudiad i ffwrdd o ddatblygu capasiti a gallu ymchwil Bwrdd Iechyd ym meini prawf cyllido HCRW wedi arwain at ostyngiad yn incwm HCRW i gefnogi staffio tîm YaD craidd BIPAB yn ystod y blynyddoedd diwethaf.



Mae'n bwysig bod y bwrdd iechyd yn amrywio ei ffynonellau incwm ar gyfer ymchwil i'w llawn botensial. Mae tîm YaD BIPAB yn ailddechrau ymchwil a gafodd ei atal yn ystod y pandemig ac yn agor astudiaethau newydd ar draws meysydd gofal iechyd wrth barhau i gefnogi astudiaethau dilynol COVID.


Mae Uned Ymchwil Clinigol newydd Ysbyty Brenhinol Gwent a chefnidir recriwtio cryf BIPAB i ymchwil COVID-19 pwysig yn rhyngwladol yn cynnig sylfaen gref y gellir adeiladu arni. Mae'r strategaeth hon yn nodi sut y cyflawnir y bwriad hwnnw.

AMCAN STRATEGOL 1: Gweithlu ymchwil cynaliadwy a gefnogir

Bu twf yng ngweithlu cyflenwi ymchwil BIPAB, gyda mwy nag erioed o staff ymchwil arbenigol yn cael eu cyflogi. Yn y flwyddyn ddiwethaf, er gwaethaf y gostyngiad mewn incwm masnachol a grant o ganlyniad i'r pandemig yn atal llawer o astudiaethau, roedd y Bwrdd Iechyd wedi gallu gwario dros £2.2m ar gyflenwi ymchwil. Roedd y cyllid yn cynnwys model cyllid Seiliedig ar Anghenion Ymchwil HCRW (yn cynnwys gwobr gan ffrwd gyllid Brechlyn COVID), incwm adeiladu capasiti masnachol, cronfeydd elusennol a chyllid cyfalaf.

Gweithred Strategol 1:

Er mwyn i ymchwil dyfu rhaid i BIPAB fanteisio'n llawn ar ffrydiau cyllid allanol posib a datblygu gallu a chapasiti staff BIPAB i ymgorffori ymchwil yn narpariaeth gwasanaeth craidd.



Cyfleoedd Incwm Allanol

- Cynyddu Treialon Masnachol: yn talu am ymchwil, yn ychwanegu at incwm adeiladu capasiti ac yn gallu bod yn ffynhonnell i arbed costau.
- Rheoli Incwm Grant: os mai BIPAB yw'r sefydliad Noddi, dylai'r ceisiadau grant gyfeirio incwm tuag at ddatblygu ac ariannu tîm Rheoli Treialon BIPAB.
- Cyllid Seiliedig ar Anghenion Ymchwil HCRW: ffynhonnell gyfyngedig sydd, mewn termau real ledled Cymru, wedi gostwng yn sylweddol dros y deng mlynedd diwethaf. Mae'n talu am oddeutu 80% o'r Tîm Ymchwil a Datblygu arbenigol yn BIPAB ar hyn o bryd.



Cyfleoedd Gweithlu BIPAB

- Dylai'r Bwrdd Iechyd ynghyd â'i bartneriaid prifysgol gydweithio i hyrwyddo cyfleoedd gweithio ar y cyd ar draws y GIG a Phrifysgolion (nid ymgynghorwyr meddygol yn unig ond ar draws y sbectrwm cyfan o swyddi ymchwil). Cael gwared ar ddyblygu a gwneud defnydd o adnoddau ei gilydd i ddatblygu a chyflawni treialon sydd wedi'u gosod i gyd-fynd ag ymarfer clinigol ac sydd felly'n fwy effeithlon ac effeithiol i'w cynnal.
- Cyswllt AB:
 - alinio ymchwil i Strategaeth Arloesedd BIPAB a Pholisi Eiddo Deallusol Cymru gyfan
 - rhannu canlyniadau ymchwil er mwyn llywio'r gwelliannau yn y gwasanaeth
- Ymgorffori sesiynau ymchwil i gyfrifoldebau gwaith yr ymgynghorwyr meddygol sy'n ymchwilio'n weithredol: gellir diffinio ymchwilio gweithredol fel:

Naill ai, gweithio mewn capasiti swyddogol fel Prif neu Uwch Ymchwilydd ar:

- astudiaethau Portffolio HCRW neu'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR)
- Llwybr at astudiaethau portffolio
- Llwybr at astudiaethau portffolio
- Ymchwil a ariennir yn fasnachol

Neu, ymgymryd â gweithgarwch datblygu sy'n arwain at un o'r uchod, y cyd â phrifysgol fel arfer.

Ymgorffori ymchwil i Ddarpariaeth Weithredol y GIG

Mae pileri dynodi prifysgolion: addysg, arloesedd ac ymchwil yn fusnes i bawb. Gan fod ymchwil yn cael ei ymgorffori ymhellach i ddarpariaeth weithredol BIPAB; dylai cyfarwyddiaethau sy'n ymwneud ag ymchwil (gyda chefnogaeth gan y Tîm Ymchwil a Datblygu arbenigol) sicrhau bod astudiaethau agored yn cael eu trafod mewn: cyfarfodydd y gyfarwyddiaeth, cyfarfodydd aml-ddisgyblaethol neu gyfarfodydd ansawdd er mwyn sicrhau bod yr ymchwil yn cyd-fynd â'r llwybrau clinigol. Dylai bob claf cymwys gael cynnig y cyfle i gymryd rhan (waeth pa glinigwr sy'n Brif Ymchwilydd (PI)/Uwch Ymchwilydd (CI)) a dylai'r holl staff sy'n ymwneud â maes gofal penodol gael y cyfle i gymryd rhan.



Bydd cymhlethdod y gweithgarwch ymchwil yn pennu'r lefel o gefnogaeth fydd ei hangen ar y gyfarwyddiaeth gan y Tîm YaD arbenigol i gynnal astudiaeth benodol. Bydd y Tîm YaD yn cynnal goruchwyliaeth o holl weithgarwch ymchwil ac yn codi'r lefel o gefnogaeth os bydd angen. Mae'r lefelau o gefnogaeth YAD arbenigol yn cynnwys:

- **Isel o ran cymhlethdod a risg:** Tîm gweithredol y gyfarwyddiaeth gydag ychydig o gysylltiad gan y tîm ymchwil arbenigol.
- **Cymedrol o ran cymhlethdod, cymedrol i isel o ran risg:** Y tîm ymchwil arbenigol yn gweithio law yn llaw â thîm gweithredol y gyfarwyddiaeth.
- **Ymchwil cymhleth sydd angen gwybodaeth arbenigol gydag elfennau o risg isel y gellir ei wneud gan dîm gweithredol y gyfarwyddiaeth:** Y tîm ymchwil arbenigol gydag ychydig o gysylltiad gan dîm gweithredol y gyfarwyddiaeth.
- **Hynod gymhleth, cymedrol i uchel o ran risg.** Tîm arbenigol yn cefnogi'r Prif Ymchwilydd: Treialon yn cael eu cynnal gan y tîm ymchwil arbenigol.

Addysg

Bydd y Tîm Ymchwil a Datblygu arbenigol yn arwain rhaglen ymwybyddiaeth ac addysg i weithlu ehangach BIPAB ymgysylltu, egluro ac annog recriwtio cleifion i mewn i ymchwil presennol yn ogystal â datblygu a chyfrannu at ymchwil newydd.

Gweithred Strategol 2:

Datblygu a chyflwyno rhaglen hyfforddiant i'r holl staff sy'n ymchwilio'n weithredol a'r rhai sy'n dyheu am fod yn ymchwilwyr. Gan gynnwys:

Arfer Clinigol Da y Gynhadledd Ryngwladol ar Gysoni

Mae hyfforddiant Arfer Clinigol Da y Gynhadledd Ryngwladol ar Gysoni (ICH GCP) yn orfodol i unrhyw un sy'n cymryd rhan mewn ymchwil clinigol sy'n ymwneud â phobl. Hwn yw'r safon ansawdd moesol a gwyddonol rhyngwladol ar gyfer dylunio, arwain, cofnodi ac adrodd y fath dreialon. Nod Arfer Clinigol Da (GCP) yr ICH yw darparu safon unedig ar gyfer rhanbarthau'r ICH er mwyn hwyluso'r gwaith o sicrhau bod data clinigol yn cael ei gyd-dderbyn gan yr awdurdodau rheoliadol yn yr awdurdodaethau hyn.

Mae'r Awdurdod Ymchwil Iechyd (HRA) a'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) yn hyrwyddo dull cymesur i sicrhau bod GCP yn cael ei gymhwyso wrth gynnal ymchwil a bod staff sy'n cymryd rhan yn cael eu hyfforddi'n briodol, gan gynnwys y rhai sy'n ceisio caniatâd gan ddarpar gyfranogwyr.³

Caiff aelodau tîm cyflenwi ymchwil arbenigol BIPAB eu hyfforddi i hwyluso a chyflwyno hyfforddiant GCP cymesur, unigryw i staff BIPAB sy'n arwain/cymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil clinigol.

Prentisiaethau Ymchwil

Nod prentisiaethau ymchwil yw cefnogi'r gwaith o integreiddio ymchwil clinigol i ofal clinigol y GIG drwy gynnig cyfleoedd i nyrsys a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (AHPs) gymryd cam i mewn i ymchwil clinigol o fewn arbenigedd o'u dewis, gyda chefnogaeth gan aelod tîm cyflenwi ymchwil arbenigol. Drwy barhau i ddatblygu'r cynllun hwn, bydd capasiti ymchwil clinigol yn datblygu mewn meysydd arbenigol, ac yn ei dro'n cynyddu'r cyfleoedd i gleifion gymryd rhan mewn ymchwil ac ymgorffori ymchwil clinigol i ofal clinigol BIPAB.

³ Datganiad ar y Cyd ynglŷn â Chymhwyso Arfer Clinigol Da i Hyfforddiant ar gyfer Ymchwilwyr (HRA, MHRA, Gweinyddiaethau Datganoledig Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru) 10 Chwefror 2020

Digwyddiadau DPP

Mae digwyddiadau DPP wedi'u hanelu at ymchwilwyr presennol a darpar ymchwilwyr. Mae'r hyfforddiant yn gymesur i brofiad ymchwil y cyfranogwr a'i nod yw rhoi iddynt y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i ddatblygu eu gyrfaedd ymchwil. Gall hynny fod ar lefel ward, cefnogi'r tîm ymchwil arbenigol a'r PI lleol, cymryd rhan mewn gwerthusiad syml, mynd ymlaen i fod yn PI neu ymgymryd â'r rôl uwch fel CI. Bydd cyfranogwyr yn cael eu cyflwyno i'r fframwaith ymchwil a datblygu, y seilwaith lleol, yr offer sydd ar gael a'u cyfeirio at y cyfleoedd hyfforddiant mwyaf priodol, er enghraifft Dyfarniadau Amser Ymchwil Clinigol HCRW.

- Cymryd rhan mewn rhaglenni addysg i uwch arweinwyr yn cynnwys y sesiynau DPP i Uwch Glinigwyr a sesiynau DPP i Feddygon Cyswllt.
- Rhaglen Hyfforddi Prif Ymchwilwyr bob deufis. Cefnogi Prif Ymchwilwyr newydd a phrofiadol drwy gynnwys sy'n cael ei addysgu a dysgu grŵp wedi'i hwyluso.
- Hyfforddiant cydsynio unigryw ar gyfer timau amlddisgyblaethol sy'n newydd i ymchwil. Adeiladu capasiti ymchwil o ansawdd drwy hyfforddi a datblygu.

Lleoliadau profiad gwaith i fyfyrwyr

Un o bileri dynodi prifysgolion yw addysgu gweithlu'r dyfodol. Mae'r tîm YaD yn cynnig lleoliadau profiad gwaith i nyrsys dan hyfforddiant yn rheolaidd, a byddant drwy hyfforddiant a mentora yn cael eu gwneud yn ymwybodol o ymchwil fel llwybr gyrfa. Manteision hyn yw bod y myfyriwr yn cael ei feithrin i ddeall yr hyn mae'n ei olygu i fod yn rhan o ymchwil i'w gleifion yn ogystal ag iddo'i hun. Bydd myfyrwyr sy'n dewis peidio â dilyn gyrfa mewn ymchwil clinigol ond sy'n mynd ymlaen i weithio mewn meysydd clinigol yn gallu rhoi eu dysg ar waith drwy weithio ochr yn ochr â'r tîm ymchwil arbenigol gan fod ymchwil wedi'i ymgorffori i ofal clinigol arferol.

- Yn weithredol wrth roi myfyrwyr ar leoliad yn y Rhaglen Hyfforddi Nyrsys Cofrestredig - Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol De Cymru.
- Cyfleoedd i archwilio rhaglenni Hyfforddiant Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd - Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol De Cymru.
- Gweithio gyda myfyrwyr MSc.

Cynllun Prif Ymchwilydd (PI) Cyswllt NIHR

Mae'r Cynllun PI Cyswllt yn gyfle hyfforddiant chwe mis yn y gwaith sy'n cynnig profiad ymarferol ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n dechrau eu gyrfa ymchwil. Bydd staff na fyddent fel arfer yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn ymchwil clinigol yn eu rolau dydd i ddydd yn cael profi sut beth yw gweithio ar dreial portffolio NIHR, a'i gyflawni, dan fentoriaeth PI brwdfrydig lleol.

- Byddai'r hwylusydd cyflenwi ymchwil lleol yn codi ymwybyddiaeth a chynnig cefnogaeth i ddarpar ddysgwyr a mentoriaid gymryd rhan yng nghynllun PI Cyswllt NIHR.

Rhaglen cofrestru proffesiynol Ymarferwyr Ymchwil Clinigol (CRP) NIHR

Mae rhaglen CRP NIHR yn cynnig y cyfle i ddatblygu'r gweithlu ymchwil drwy uwchsgilio ymarferwyr anghofrestredig i ymgymryd â rolau clinigol. Cymryd rhan yng ngweithgor cofrestru ac achredu Cymru gyfan y CRP (HCRW). 'Mae'r CRP yn gweithio mewn rolau darparu ymchwil sy'n cynnwys cyswllt uniongyrchol â chleifion neu gyfranogwyr astudiaeth eraill. Mae'r CRP bellach yn cael eu hadnabod fel grŵp galwedigaethol ym maes iechyd a gofal y DU gan Awdurdod Safonau Proffesiynol y DU (PSA). Y PSA yw'r corff sy'n gosod y safonau ar gyfer cofrestri achrededig o bobl sy'n gweithio yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Ym mis Ebrill 2020 cafodd cofrestriad achrededig ar gyfer CRP ei gymeradwyo gan y PSA fel rhan o Gofrestr Achrededig yr Academi Gwyddor Gofal Iechyd (AHCS)'.

- Cymryd rhan yng ngrŵp llywio HCRW sydd â'r nod o ddatblygu llwybrau gyrfa ar gyfer CRP.

Sgiliau uwch – tîm darparu arbenigol

Mae buddsoddiad y Bwrdd Iechyd mewn canolfan ymchwil clinigol newydd yn darparu cyfleusterau ar gyfer gallu rheoli ymchwil, treialon clinigol ac ymyriadau ar y safle. Gall y tîm ymchwil arbenigol gynnal profion clinigol; er enghraifft, fflebotomi, troelli a phrosesu samplau; triniaethau; er enghraifft, therapïau cemo neu drwyth a hefyd profion arbenigol; er enghraifft, sbirometreg, ECG a sganio uwchsain. Mae gwella sgiliau'r tîm ymchwil arbenigol yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i fanteisio'n llawn ar y cyfleuster newydd ac yn agor cyfleoedd i YaD gynnig ystod ehangach o astudiaethau, triniaethau ac ymyriadau i'n cleifion.

- Datblygu'r tîm darparu arbenigol er mwyn sicrhau bod cymwyseddau'r nyrsys ymchwil mewn sgiliau trwythiad, cemotherapi a phwmp ar waith ac yn cael eu cynnal i gyflawni cam II – IV o'r treialon clinigol.

Datblygu rôl y swyddog ymchwil; naill ai o fewn y tîm arbenigol neu o fewn timau gweithredol y GIG i wneud gwaith arsylwi, tynnu gwaed ac ECG er mwyn cefnogi'r tîm ymchwil.

AMCAN STRATEGOL 2: Buddsoddiad mewn staff a'r seilwaith

Tîm Ymchwil Arbenigol

Gweithred Strategol 3:

Alinio llywodraethiad a chyflenwi ymchwil i atgyfnerthu gwybodaeth ac arbenigedd er mwyn sicrhau bod gweithlu BIPAB yn cael ei gefnogi'n llawn i ddatblygu a chyflawni ymchwil ac i wneud yn siŵr bod yr astudiaeth yn cael ei pharatoi'n brydlon.

Mae cyflwyno treialon o fewn fframwaith ICH GCP a dilyn llywodraethiad da yn hanfodol i ansawdd ac uniondeb yr ymchwil sy'n cael ei gynnal ar draws y Bwrdd Iechyd.

Wrth i'r Bwrdd Iechyd symud tuag at integreiddio ymchwil yn llawn i ofal arferol bydd y tîm ymchwil arbenigol yn:

- gweithio'n ddi-dor i gefnogi'r amcanion a'r camau gweithredu strategol o fewn y strategaeth hon, a
- gweithio gyda chanolfan darparu a chymorth HCRW i sicrhau bod BIPAB yn gweithio i'r safon sy'n ofynnol ar gyfer ymchwil clinigol

Amser Ymgynghorydd sy'n Ymchwilio'n Weithredol

Gweithred Strategol 4:

Bydd y Cyfarwyddwr YaD yn cydweithio ochr yn ochr â'r Cyfarwyddwr Meddygol i oruchwylio seilwaith yr Asesiadau Darpariaeth Gwasanaeth (SPA) a ddarperir drwy sesiynau SPA a sesiynau cyfrifoldeb ychwanegol a ddyfarnir drwy gynllunio swyddi. Bydd y Cyfarwyddwr YaD yn ymwybodol o bob SPA a sesiynau cyfrifoldeb ychwanegol a ddyfarnwyd ar gyfer ymchwil a bydd yn gall alinio a goruchwylio'r gwaith er mwyn sicrhau bod ymchwil clinigol yn cael ei gefnogi a'i alluogi i ffynnu.

Yr hyn sy'n digwydd yn aml yw mai un neu ddau o ymgynghorwyr yn unig o fewn y Gyfarwyddiaeth sy'n ymgymryd ag ymchwil 'go iawn'; hynny yw, gweithio mewn capasiti swyddogol fel Prif Ymchwilydd neu Uwch Ymchwilydd ar:

- Astudiaethau Portffolio HCRW/NIHR
- Llwybr at astudiaethau portffolio
- Ymchwil a ariennir yn fasnachol



Neu weithio â phrifysgol:

- Ymgymryd â gweithgarwch datblygu sy'n arwain at un o'r uchod

Yn aml mae angen mwy o amser nag a ddyfernir drwy un neu hanner SPA i ymgymryd ag ymchwil mewn rôl *Prif Ymchwilydd (PI)* neu *Uwch Ymchwilydd (CI)* neu i ddatblygu astudiaethau mewn partneriaeth â'r SAU. Er mwyn mynd i'r afael â hyn mewn trafodaeth â'r Cyfarwyddwr YaD:

- Bydd cynlluniau swydd ar gyfer ymgynghorwyr sy'n ymchwilio'n weithredol yn cynnwys 1 SPA ymchwil.
- lle mae 1 SPA yn annigonol dylai'r adolygiad cynllun swydd ar gyfer ymgynghorydd sy'n ymchwilio'n weithredol gynnwys sesiynau cyfrifoldeb/sesiynau ymchwil ychwanegol a ariennir gan y gyfarwyddiaeth.
- efallai bydd cyfarwyddiaethau'n ystyried cyflogi arweinydd ymchwil ymgynghorol sydd â llai o sesiynau clinigol a mwy o sesiynau ymchwil penodol i arwain portffolio ymchwil y gyfarwyddiaeth.

Gwasanaethau Cymorth y GIG

Gweithred Strategol 5:

datblygu systemau newydd ac arloesol i wella capasiti'r gwasanaethau patholeg, radioleg, a fferylliaeth i gefnogi ymchwil a datblygu.

Mae Patholeg, Radioleg a Fferylliaeth yn wasanaethau cymorth o fewn y GIG sy'n hanfodol ar gyfer cyflawni treialon clinigol.

- Mae cyfyngiad ar argaeledd yr adnoddau hyn yn amharu ar gapasiti i agor a chyflawni treialon. Yn ogystal, gan fod gwasanaethau'n cael eu symud neu eu hail-ddylunio mae'n bwysig ystyried yr effaith a gaiff y symud/newid ar y gwasanaeth hwnnw i gynnal treialon clinigol a'r effaith y byddai hynny'n ei chael ar gleifion.

Cyflawnir y cynnydd yng nghapasiti gwasanaethau cymorth drwy ddefnyddio'r gronfa sgiliau i symleiddio'r ffordd mae treialon yn cael eu paratoi a'u cynnal drwy wasanaethau cymorth. Bydd arbenigwyr ymchwil a gyflogir ar hyn o bryd o fewn y gwasanaethau cymorth (sydd â'r wybodaeth am brotocol y treialon a'r llywodraethiad sydd angen bod ar waith), a thîm gwasanaeth cymorth ehangach y gyfarwyddiaeth (sydd â'r wybodaeth am faes yr afiechyd/meddyginiaeth/prawf) yn cydweithio gyda chefnogaeth gan uwch dîm rheoli'r ymchwil er mwyn cael gwared ar rwystrau a galluogi cyfarwyddiaethau i gynnal treialon clinigol fel rhan o'u gwasanaeth gweithredol.

- Fferylliaeth: Mae'r enghraifft sy'n cael ei harchwilio yn y maes Haematoleg yn cynnwys bod fferylllydd arbenigol y gyfarwyddiaeth yn gweithio ochr yn ochr â'r fferylllydd ymchwil, i ddatod protocolau ymchwil newydd er mwyn sefydlu mecanweithiau a fydd yn galluogi'r astudiaeth i fynd yn ei blaen. Drwy gydweithio a symleiddio'r broses adolygu mae modd osgoi dyblygiad, arbed amser gwerthfawr, a gellir dod i benderfyniad yn llawer cynt os oes modd cynnal yr astudiaeth yn BIPAB. Os yn llwyddiannus, bydd y broses hon yn cael ei hymestyn i gyfarwyddiaethau eraill.

Datblygu penodiadau ar y cyd rhwng y GIG a'r Sefydliadau Addysg Uwch (SAU)

Gweithred Strategol 6:

Bydd BIPAB yn cydweithio gyda Sefydliadau Addysg Uwch, Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Llywodraeth Cymru i gael gwared ar rwystrau ac agor cyfleoedd ar gyfer penodiadau ar y cyd.

Mae'n cael ei gydnabod ers tro bod swyddi ymgynghorol ar y cyd o fudd i sefydliadau'r GIG a Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) fel ei gilydd. Nid oes digon o swyddi ymgynghorol ar y cyd, ac mae'n bwysig bod y Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda phrifysgolion i ganfod ffyrdd o ddatblygu'r adnodd gwerthfawr hwnnw.

Serch hynny, ni ddylid cyfyngu cyfleoedd ar gyfer swyddi ar y cyd i swyddi ymgynghorol ac mae angen i'r Bwrdd Iechyd ynghyd â'i bartneriaid prifysgol archwilio'r sbectrwm cyfan o swyddi ymchwil ar draws y GIG a'r SAU:

Enghraifft: Rheolwr Treialon.

- Byddai cyfuno rôl rheolwr treialon y GIG a rheolwr treialon prifysgol yn gwireddu'r buddion canlynol:
 - cyfleoedd datblygu gyrfa ac addysg yn y GIG a'r brifysgol. (Bodlonrwydd swydd gweithiwr)
 - mynediad at arbenigwyr yn y ddau sector a fyddai'n ehangu'r wybodaeth ac arbenigedd ar y cyd. (Dealltwriaeth well ar draws y sectorau)

- byddai treialon yn elwa o ddyluniad a phroses gydlynol wybodus a fyddai'n bodloni anghenion y GIG a'r SAU.
- y posibilrwydd i gyllid grant fynd ymhellach wrth i gostau gorbenion ostwng

Mae Cymru lachach yn edrych tuag at ddyfodol lle mae rhwystrau i weithio wedi'u dymchwel ar draws sectorau. Yn 2022, trafodwyd swyddi ar y cyd y GIG/SAU yn yr Arddangosfa Ddynodi Prifysgolion. Roedd y drafodaeth hon wedi adnabod nifer o rwystrau: (contractau, pensiynau, cyflogau, cysylltedd TG) ac awgrymwyd y byddai strategaeth ar y cyd GIG/SAU Cymru gyfan yn gallu edrych ar fanteision swyddi ar y cyd a sut i gael gwared ar rwystrau.

Seilwaith

Gweithred Strategol 7:

alinio'r strategaeth ystad i'r strategaeth ymchwil er mwyn creu seilwaith fyddai'n cefnogi cyflenwi ymchwil ar draws sawl safle.

Yn 2021/22 agorodd y Bwrdd Iechyd y drysau i'w ganolfan ymchwil clinigol newydd yn Ysbyty Brenhinol Gwent gyda chefnogaeth gan uned loeren yn Ysbyty Nevill Hall a thîm bychan sy'n gweithio o Ysbyty Athrofaol y Faenor. Mae'r uned yn galluogi cyfranogwyr treial i ymweld a/neu dderbyn eu triniaethau mewn un adran. Mae hyn o fudd i'r cleifion a'r tîm ymchwil i gael y gwerth am arian mwyaf posib, arbed amser a sicrhau bod cyfranogwyr treial yn derbyn gofal mewn amgylchedd cyfforddus. Bydd y datblygiad hwn yn allweddol i allu cyflawni'r strategaeth hon. Wrth fanteisio'n llawn ar y cyfleuster newydd mae'r tîm ymchwil arbenigol yn parhau i weithio o gyfleusterau clinigol ar bob safle ac yn y gymuned, sy'n parhau i fod y ffordd orau i gyflenwi'r ymchwil.

Cymuned Ymarfer

Gweithred Strategol 8:

datblygu cymuned ymarfer aml-broffesiynol lle gall unigolion ddod ynghyd i rannu syniadau a chefnogi gwaith o weithredu'r strategaeth hon ar y cyd â Chynllun Tymor Canolig Integredig a Strategaeth Arloesedd BIPAB.

AMCAN STRATEGOL 3:

Rhaglen ymchwil arloesol, effeithlon wedi'i symleiddio

Dylai cleifion ac aelodau'r cyhoedd:

- gael y cyfle i gymryd rhan mewn ymchwil waeth beth yw'r lleoliad.
- gael cynnig cyfleoedd ymchwil arbenigol drwy atgyfeiriad i ganolfannau arbenigol, yn yr un modd y mae atgyfeiriadau o feysydd eraill yn cael eu derbyn gan dîm YaD y Bwrdd Iechyd lle mae'r ymchwil arbenigol yn cael ei gynnal gan BIPAB.
- disgwyl y bydd yr ymchwil a ddatblygir yn lleol yn defnyddio ymarfer cymuned llawn gan gynnwys partneriaid prifysgol, Cyswllt AB, Cyfleuster HCRW, Canolfannau ac Unedau HCRW a chyfleoedd cyllid er mwyn sicrhau bod yr astudiaethau a ddatblygir yn bodloni anghenion ein poblogaeth.

Bydd y tîm ymchwil arbenigol yn gweithio ochr yn ochr â thimau gweithredol y GIG ar draws yr holl safleoedd gan weithio'n barhaus i gael gwared ar rwystrau.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n galed i wireddu amcan strategol 3; bydd y gwaith o ddatblygu rhaglen ymchwil arloesol, effeithlon wedi'i symleiddio yn cael ei wneud mewn tri cham.

Cam 1: Meysydd cryfder a chyfleoedd

Cardioleg Gofal Critigol: Haematoleg (a gwasanaethau cancer yn gyffredinol): Bydwreigiaeth: Niwroleg: Anadlol: Iechyd Cyhoeddus: Rhiwmatoleg: Llawdriniaeth

Cryfderau:

- portffolios ymchwil sefydledig
- masnachol ac anfasnachol
- cyllid i'r adran Haematoleg gan y gyfarwyddiaeth ar gyfer Nyrs Ymchwil
- Swyddog Ymchwil yn yr adran Gardioleg a ariennir drwy incwm masnachol
- mae gofal critigol a bydwreigiaeth yn integreiddio ymchwil i swyddi ar draws y timau a chanddynt hyfforddiant ICH GCP eang ar waith
- gofal critigol a llawdriniaeth – yn cynnal cynllun prentisiaeth Nyrs Ymchwil
- ffyrdd arloesol o weithio – fferyllydd haematoleg arbenigol yn gweithio â fferyllydd ymchwil



Gwendidau:

- amser dynodedig ar gyfer ymgynghorwyr sy'n ymchwilio'n weithredol
- gwasanaethau cymorth patholeg, radioleg a fferylliaeth yn aml ddim yn methu â chefnogi astudiaethau
- swyddi ar y cyd â phrifysgolion
- clinigwyr yn cael eu datblygu i lefel Uwch Ymchwilydd

Cyfleoedd:

- mapio a monitro SPA a dyfarnu sesiynau cyfrifoldeb ychwanegol ar gyfer ymchwil yn y meysydd hyn
- cysylltu â fferyllwyr y gyfarwyddiaeth
- manteisio ar yr enw da sydd eisoes wedi'i sefydlu drwy gynnal y treialon masnachol a'r uned ymchwil newydd i ddatblygu portffolios masnachol ar draws yr holl feysydd cryfder
- bwydo'r blaenoriaethau ymchwil i'r strategaeth gweithlu fferylliaeth
- hyrwyddo portffolio ymchwil bydwreigiaeth sy'n darparu gwasanaeth gweithredol annatod a oruchwylir ac a gefnogir gan y Bydwreagedd Ymchwil
- ymestyn y cynllun prentisiaeth Nyrs Ymchwil i bob maes cryfder
- datblygu'r portffolio ymchwil er mwyn gwneud defnydd llawn o ystafell drwytho a wardiau'r achosion dydd sydd ar gael yn y Cyfleuster Ymchwil Clinigol yn Ysbyty Brenhinol Gwent

Cam 2: Blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd


Blaenoriaeth 1:
rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn

Blaenoriaeth 2:
ei wneud yn iawn ar gyfer plant a phobl ifanc

Blaenoriaeth 3:
oedolion yng Ngwent yn byw'n iachach ac yn heneiddio'n dda

Blaenoriaeth 4:
oedolion hŷn yn cael eu cefnogi i fyw'n dda ac yn annibynnol

Blaenoriaeth 5:
dod i ddiwedd bywyd yn ddi-boen ac yn urddasol fel rhan o fywyd



Cryfderau:

- Bydwreigiaeth
- Rhaglen Rhanbarth Marmot
- Iechyd Cyhoeddus
- Gofal lliniarol (canser)
- Cynllun prentisiaeth Nyrs Ymchwil
- CAMHS
- Iechyd Meddwl

Gwendidau

- Byddai blaenoriaethau 4 a 5 yn elwa o ymchwil sydd wedi'i ddatblygu a'i gyflawni ochr yn ochr â'n partneriaid gofal cymdeithasol a thrydydd sector: er bod prosesau cadarn ar waith i sicrhau bod ymchwil yn y GIG wedi'i sefydlu a'i gynnal yn unol â ICH GCP nid oes proses ar waith i reoli ymchwil gofal cymdeithasol nac ymchwil trydydd sector.


Golyga hyn na all y Bwrdd Iechyd gynnal treialon clinigol ar draws bob sector ar hyn o bryd. Mae HCRW yn ceisio mynd i'r afael â hyn a sicrhau bod prosesau'n cael eu datblygu fel y gellir dechrau'r cam pwysig hwn o'r ymchwil.

Cyfleoedd:

- Bydd bydwreigiaeth fel enghraifft o gam 1 yn:
arwain y ffordd ar gyfer Blaenoriaeth 1: rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn
 - esiamp l dda ar gyfer sut i weithredu ymchwil drwy wasanaethau pellach
- Bydd rhaglen Rhanbarth Marmot y Bwrdd Iechyd yn rhoi ei ffocws cyntaf ar y blynyddoedd cynnar gan hyrwyddo ymyriadau sy'n canolbwyntio ar y teulu a gwell canlyniadau hirdymor ar gyfer plant. Nod y prosiect yw lleihau anghydraddoldebau iechyd ar draws y pum maes blaenoriaeth.
- Bu Iechyd Cyhoeddus Cymru a BIPAB yn cydweithio i ymchwilio brechlynnau a diabetes
- Adeiladu ar ofal lliniarol yng ngofal lliniarol ymchwil canser i bawb


Ymestyn y cynllun prentisiaeth Nyrs Ymchwil i ofal sylfaenol

Cam 3: Cyflenwi Ymchwil – gwasanaeth gweithredol cwbl integredig



3 Casgliad a Chrynodeb

- Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd pedair gwlad y DU weledigaeth 10-mlynedd newydd ar gyfer ymchwil - Achub a Gwella Bywydau: Dyfodol Cyflenwi Ymchwil Clinigol yn y DU - sy'n nodi'r uchelgais i greu amgylchedd ymchwil clinigol blaenllaw yn y DU. Mae'r strategaeth 'Ymchwil – Gweithgarwch Craidd' BIPAB hon yn cyd-fynd â'r weledigaeth honno gan y DU.
- Ar 21 Gorffennaf, 2022, ysgrifennodd y Prif Swyddog Meddygol (CMO) i'r Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaethau yng Nghymru gan gyfeirio at weledigaeth ymchwil y DU. Yn ei lythyr, amlinellodd y CMO y rôl ddylanwadol y gall Byrddau Iechyd a sefydliadau'r GIG ei chwarae wrth gefnogi'r rhaglen waith hon.
- Mae'r incwm a roddir i'r Bwrdd Iechyd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (HCRW) yn darparu'r cyllid craidd ar gyfer gweithgarwch ymchwil y Bwrdd Iechyd. Mae cyllideb HCRW dan bwysau sylweddol ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae HCRW wedi symud ei feini prawf cyllido i un dangosydd perfformiad allweddol, sef i recriwtio cyfranogwyr i astudiaethau o fewn amser a tharged cytunedig (RTT).
- Mae'n bwysig felly bod y Bwrdd Iechyd yn amrywio ei ffynonellau incwm ar gyfer ymchwil er mwyn cyflawni ei lawn botensial fel sefydliad ymchwil.
- Mae'r strategaeth 'Ymchwil- Gweithgarwch Craidd 2022-27' yn nodi sut fydd BIPAB yn cyflawni'r bwriad hwnnw drwy 3 amcan strategol lefel uchel ac 8 gweithred strategol.
- Y nod yw datblygu seilwaith y Bwrdd Iechyd i fod yn sefydliad lle gall ymchwil ffynnu a lle gall y Bwrdd Iechyd wneud y mwyaf o'i fuddsoddiad yn y Ganolfan Ymchwil Clinigol newydd yn Ysbyty Brenhinol Gwent.
- Cyhoeddir y ddogfen derfynol ar wefan y Bwrdd Iechyd yn Gymraeg a Saesneg a chaiff ei chynhyrchu fel llyfryn o safon uchel sy'n hyrwyddo'r Ganolfan Ymchwil Clinigol newydd a BIPAB fel sefydliad lle mae ymchwil yn weithgarwch craidd.



1911-1979 Josef Mengele

Roedd Josef Mengele, a adnabyddir hefyd fel yr Angel Marwolaeth, yn feddyg a swyddog SS yr Almaen yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Fe berfformiodd arbrofion angheuol ar garcharonion yng ngwersyll-garchar Auschwitz ac nid oedd yn ystyriol o gwbl am eu hiechyd, diogelwch, na'u dioddefaint corfforol ac emosiynol.

Defnyddiwyd Auschwitz gan Mengele fel cyfle i ymchwilio i etifeddeg, gan ddefnyddio'r carcharonion i gynnal arbrofion dynol. Yn benodol, ar eteilliaid unwy, pobl gyda heterochromia iridium (dau lygad o wahanol liw), corachedd, ac annormaleddau corfforol. Er enghraifft, byddai'n chwistrellu cemegau i mewn i lygaid pobl fyw i geisio newid lliw eu llygaid.

Drwy hanes, mae yna enghreifftiau o erchyllterau dynol yn cael eu cynnal yn enw ymchwil clinigol. Yn dilyn ymlaen o dreialon Nuremberg ar ôl yr Ail Ryfel Byd, mae Cod Nuremberg ac yna Datganiad Helsinki yn ddiweddarach ym 1964 yn rhoi gwarchodaeth i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn ymchwiladau clinigol. Mae elfennau'r datganiad a ddisgrifir fel Arfer Clinigol Da, yn ffurfio sail i systemau cyfreithiol y DU a sawl rhan o'r byd.





Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

